# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mawrth 2006 i'w hateb ar 28 Mawrth 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *I'w hateb gan y Prif Weinidog*

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r ffactorau a fydd yn pennu llwyddiant targed Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella safonau tai erbyn 2012. OAQ1433(FM)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo ac annog seiclo yng Nghymru. OAQ1402(FM)

**3. Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u derbyn ynghylch cefnogaeth y cyhoedd i ddatganoli pellach. OAQ1423(FM)

**4. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i leihau effaith newid yn yr hinsawdd. OAQ1421(FM)

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl un o ymrwymiadau iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd heb eu diwallu. OAQ1413(FM)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu gwledig yng Ngheredigion. OAQ1407(FM) **W**

**7. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd rheilffyrdd fel rhan o ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru. OAQ1425(FM) **Tynnwyd yn ôl**

**8. David Melding (Canol De Cymru):** Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn mynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd ar Gymru dros yr ugain mlynedd nesaf. OAQ1430(FM)

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog gyflwyno sylwadau am bwysigrwydd syniadau amgylcheddol newydd. OAQ1422(FM)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag at nodau'r Mudiad Cydweithredol. OAQ1434(FM)

**11. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion y DU ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd. OAQ1415(FM)

**12. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella bywydau plant anabl yng Nghymru. OAQ1405(FM)

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Gweinidogion y Cabinet ynghylch Llywodraeth agored. OAQ1416(FM)

**14. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch blaenoriaethau economaidd ac adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Tor-faen. OAQ1403(FM)

**15. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A all y Prif Gweinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru. OAQ1420(FM)